

Proses Gofrestru AGIC o 1 Gorffennaf 2021

Ar ddechrau pandemig COVID-19, gwnaed newidiadau dros dro i broses gofrestru AGIC. Roedd y newidiadau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod staff AGIC a phobl sy'n ceisio cofrestru ag AGIC yn cael eu diogelu rhag y risg o haint, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol er mwyn helpu i ostwng cyfraddau trosglwyddo'r feirws.

Gydag amrywiaeth o ddangosyddion yn dangos arwyddion cadarnhaol o ran COVID-19, o 1 Gorffennaf 2021, rydym yn bwriadu ailgyflwyno rhai elfennau o'n proses gofrestru ar y safle os yw'n ddiogel gwneud hynny. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gynnal rhai o'r prosesau o bell er mwyn lleihau'r angen i fod mewn cysylltiad agos ag eraill. Byddwn hefyd yn parhau i werthuso ein dull yn ystod y pandemig i bennu'r ford y byddwn yn gwneud newidiadau i'n proses yn y tymor hwy.

Isod ceir manylion am y ffordd y byddwn yn prosesu ceisiadau cofrestru o 1 Gorffennaf:

- **Cyfweliadau 'Person Cymwys' â Rheolwyr Cofrestredig**

Byddwn yn parhau i gynnal yr holl gyfweliadau 'person cymwys' â rheolwyr cofrestredig drwy gyswllt fideo.

Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu dyddiad ac amser cyfleus i gynnal eich cyfweliad. Ar ôl cytuno ar ddyddiad ac amser eich cyfweliad, byddwn yn anfon cadarnhad o'r manylion atoch ynghyd â gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r cyswllt fideo.

Caiff y cyfweliadau eu cynnal gan o leiaf ddau aelod o Dîm Cofrestru AGIC o hyd.

Noder: Dylech wneud trefniadau i ddefnyddio ystafell dawel a phreifat ar gyfer eich cyfweliad fel eich bod yn cael llonydd.

- **Ymweliadau cyn cofrestru â safleoedd**

Byddwn yn dychwelyd i'r drefn o gynnal ymweliadau cyn cofrestru â safleoedd rheolaidd er mwyn cael sicrwydd ynghylch y trefniadau sydd ar waith i gydymffurfio â'r rheoliadau a'r fframwaith safonau. Fodd bynnag, bydd y rhain yn destun asesiad risg COVID-19 boddhaol i wneud yn siŵr bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch staff AGIC a'r bobl sy'n bresennol ar adeg yr ymweliad, neu fod modd rhoi trefniadau o'r fath ar waith.

Bydd dal angen i chi gyflwyno copïau electronig i ni o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau perthnasol rydym yn eu gweld fel arfer yn ystod ymweliadau â

safleoedd. Mae hyn er mwyn helpu i leihau'r amser y mae angen i staff AGIC ei dreulio ar y safle. Hefyd, bydd angen i chi roi gwybodaeth i ni i'n helpu i gwblhau'r asesiad risg COVID-19.

Os bydd yr asesiad risg yn awgrymu na fyddwn yn gallu cynnal ymweliadau cyn cofrestru yn ddiogel, byddwn yn parhau i ddefnyddio asesiadau bwrdd gwaith/o bell.

Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Practisau Deintyddol Preifat

Os ydych yn gwneud cais am gofrestrriad mewn perthynas â phractis deintyddol preifat, dylech barhau i gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy eich cyflogwr neu wasanaeth ambarél.

Byddwn yn dychwelyd i'r drefn lle mae'n ofynnol i chi ddarparu eich tystysgrif DBS wreiddiol (a gafwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf). Gallwn edrych ar y dystysgrif pan fyddwn yn cynnal yr ymweliad cyn cofrestru ar y safle.

Os na fyddwn yn cynnal ymweliad, bydd angen i chi anfon eich tystysgrif atom. Byddwn yn cadw eich tystysgrif yn ddiogel ac yn ei dychwelyd¹ atoch pan fyddwn wedi edrych arni. Efallai y bydd oedi cyn dychwelyd y dystysgrif atoch tra bod cyfyngiadau ar nifer y staff a all ddod i'n swyddfa.

Caiff manylion y dystysgrif eu cofnodi a'u cadw yn unol â'n [polisi preifatrwydd](#).

Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol

Os ydych yn gwneud cais am gofrestrriad mewn perthynas â gwasanaeth gofal iechyd annibynnol (e.e. ysbyty annibynnol, clinig annibynnol neu asiantaeth feddygol annibynnol), **rhaid** i'ch cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael ei wneud (cydlofnodi) drwy AGIC.

Os oes gennych dystysgrif DBS eisoes yr ydym wedi gofyn amdani.

Byddwn yn dychwelyd i'r drefn lle mae'n ofynnol i chi ddarparu eich tystysgrif DBS wreiddiol (a gafwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf). Gallwn edrych ar y dystysgrif pan fyddwn yn cynnal yr ymweliad cyn cofrestru ar y safle.

Os na fyddwn yn cynnal ymweliad, bydd angen i chi anfon eich tystysgrif atom. Byddwn yn cadw eich tystysgrif yn ddiogel ac yn ei dychwelyd atoch pan fyddwn wedi edrych arni. Efallai y bydd oedi cyn dychwelyd y dystysgrif atoch tra bod cyfyngiadau ar nifer y staff a all ddod i'n swyddfa.

¹ Byddwn yn dychwelyd eich tystysgrif DBS gan ddefnyddio gwasanaeth 'Special Delivery' y Post Brenhinol.

Caiff manylion y dystysgrif eu cofnodi a'u cadw yn unol â'n [polisi preifatrwydd](#).

Os nad oes gennych dystysgrif DBS eisoes yr ydym wedi gofyn amdani.

Bydd dal angen i chi gysylltu â ni a gofyn am ffurflen gais DBS. Yna, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd atom.

Byddwn yn dychwelyd i'r drefn lle mae'n ofynnol i chi anfon eich dogfennau adnabod atom. Byddwn yn cadw eich dogfennau'n ddiogel ac yn eu dychwelyd² atoch pan fyddwn wedi edrych arnynt. Efallai y bydd oedi cyn eu dychwelyd atoch tra bod cyfyngiadau ar nifer y staff a all ddod i'n swyddfa.

Yna, bydd gwiriadau adnabod yn parhau i gael eu cynnal drwy gyswllt fideo. Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu dyddiad ac amser cyfleus i gynnal y gwiriad adnabod. Ar ôl cytuno ar ddyddiad ac amser eich cyfweiliad, byddwn yn anfon cadarnhad o'r manylion atoch ynghyd â gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r cyswllt fideo.

Byddwn yn dychwelyd i'r drefn lle mae'n ofynnol i chi ddarparu eich tystysgrif DBS wreiddiol pan fyddwch yn ei chael. Gallwn edrych ar y dystysgrif pan fyddwn yn cynnal yr ymweliad cyn cofrestru ar y safle.

Os na fyddwn yn cynnal ymweliad, bydd angen i chi anfon eich tystysgrif atom. Byddwn yn cadw eich tystysgrif yn ddiogel ac yn ei dychwelyd atoch pan fyddwn wedi edrych arni. Efallai y bydd oedi cyn dychwelyd y dystysgrif atoch tra bod cyfyngiadau ar nifer y staff a all ddod i'n swyddfa.

Caiff manylion y dystysgrif eu cofnodi a'u cadw yn unol â'n [polisi preifatrwydd](#).

- **Adroddiadau Meddygol gan Ymarferydd Cyffredinol (ar gyfer pobl sy'n gwneud cais am gofrestriad mewn perthynas â gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yn unig)**

Byddwn yn parhau i dderbyn datganiad gennych ynglŷn â chyflwr eich iechyd corfforol a meddyliol os na allwch gael adroddiad meddygol gan Ymarferydd Cyffredinol. Rydym yn gofyn am y wybodaeth hon yn y ffurflen gais i gofrestru ag AGIC.

Efallai y byddwn yn trafod hyn ymhellach yn ystod y cyfweiliad 'person cymwys' â'r rheolwr cofrestredig os ystyrir bod angen gwneud hynny.

² Byddwn yn dychwelyd eich dogfennau gan ddefnyddio gwasanaeth 'Special Delivery' y Post Brenhinol.

- **Cyflwyno Hysbysiadau Statudol (Hysbysiad o Benderfyniad a Hysbysiad o Fwriad) a Thystysgrifau Cofrestru AGIC**

Hysbysiadau o Fwriad a Hysbysiadau o Benderfyniad

Bydd AGIC yn parhau i roi gwybod i chi am ganlyniad ein hasesiad o'ch cais drwy gyflwyno Hysbysiadau o Fwriad a Hysbysiadau o Benderfyniad.

Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn parhau i anfon y rhain atoch drwy e-bost os ydych wedi rhoi caniatâd i ni wneud hynny.

Tystysgrifau Cofrestru AGIC

Mae'n rhaid i ni barhau i gyflwyno tystysgrifau cofrestru AGIC drwy'r post. Fodd bynnag, efallai y bydd oedi cyn anfon y tystysgrifau atoch tra bod cyfyngiadau ar nifer y staff a all ddod i'n swyddfa.

Mae angen i chi gadarnhau eich bod wedi derbyn eich tystysgrifau a byddwn yn gofyn i chi ddarparu cyfeiriad addas i'w hanfon iddo.

Rhagor o Gyngor a Chanllawiau

Mae cyngor a chanllawiau ar y ffordd rydym yn asesu ceisiadau i gofrestru â ni ar gael ar ein [gwefan](#). Gallwch hefyd ddod o hyd i'r ffurflenni a'r templedi perthnasol i gwblhau eich cais.

Os oes gennych gwestiynau o hyd, gallwch gysylltu â Thîm Cofrestru AGIC drwy e-bost yn AGIC.Cofrestru@llyw.cymru. Rydym yn ceisio ymateb i bob ymholiad ynglŷn â chofrestru o fewn 15 diwrnod gwaith a gallwn ymateb yn llawer cynt na hyn fel arfer.